**Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 3.30p.m. ddydd Llun 11 Gorffennaf 2022 yn Adeilad IQ, Campws Abertawe, SA1

Yn bresennol:
Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Justin Albert
Pam Berry
Andrew Curl
Tania Davies
Taya George Gibbons
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Uzo Iwobi
Arwel Ellis Owen
Vanessa Liverpool
Geraint Roberts
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor

Sylwedyddion o Gyngor PC:
Dr Stuart Robb
Nigel Roberts

Hefyd yn bresennol:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Andrew Cornish, Pennaeth Coleg Sir Gâr/Ceredigion
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol

Iestyn Davies, Pro Is-Ganghellor (sylwedydd)

Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.36<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Siwan Davies, Dr Conny Matera-Rogers, Rowland Jones, Matthew Peake, Victoria Provis, Dr Liz Siberry, Jane O-Rourke. | |
| 22.37<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (CO435). | |
| 22.38<br>Adroddiadau Bwrdd Coleg Sir Gâr | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng Nghofnodion Cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.39<br>Adroddiad a Chynllun Gweithredu yr ASA | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad a chynllun gweithredu'r ASA (CO437).<br><br>Nododd y Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) yr elfennau a ganmolwyd yn yr adroddiad, yn cynnwys y dangosfwrdd data, yr Hwb Myfyrwyr, yr hyfforddiant a'r cymorth digidol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig a'r dull cydlynol ac effeithiol o wella dilyniant myfyrwyr o sefydliadau partner cydweithredol ac o fewn y sefydliadau hynny.<br><br>Nododd y DIG (Academaidd) y byddai'r adroddiad a'r cynllun gweithredu, gyda diweddariad cynnydd cychwynnol, yn cael ei ystyried gan y Senedd ym mis Medi 2022. Roedd yn ofynnol i'r Brifysgol gyhoeddi'r cynllun gweithredu ar y wefan erbyn 30 Medi yn unol â llinell amser yr ASA. | |
| 22.40<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 5 Mai 2022 (CO438a). | |
| 22.41<br>Diwygiadau i'r Cynllun Strategol | YSTYRIODD y Cyngor ddiwygiadau i'r Cynllun Strategol, fel y'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ei gyfarfod ym mis Mai 2022 (CO439).<br><br>Nododd Ysgrifennydd y Brifysgol y cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol, ar ôl cytuno i ymestyn cyfnod y Cynllun Strategol cyfredol i gynnwys 2022/23, er mwyn ystyried newidiadau testunol arfaethedig i'r Cynllun cyfredol a mesurau llwyddiant. Roedd y newidiadau arfaethedig yn cynnwys cyfeiriad at gampws Birmingham a blaenoriaethau a oedd wedi dod i'r amlwg ers cymeradwyo'r Cynllun yn 2017, yn cynnwys iechyd, llesiant a chynhwysiant dysgwyr; y Coleg Doethurol, seilwaith digidol, a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd rhai elfennau wedi'u dileu, yn bennaf oherwydd bod y targedau wedi'u cyflawni. | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Roedd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad wedi cefnogi'r newidiadau arfaethedig. Fodd bynnag, gan nodi fod y broses gynllunio ar gyfer y Cynllun nesaf i fod i ddechrau ym mis Medi 2022, roedd y Pwyllgor wedi cynnig y dylai'r Cynllun cyfredol gael ei ymestyn i gynnwys 2023/24 yn sgil y newidiadau sylweddol a ddisgwylir i'r uwch dîm yn ystod y flwyddyn nesaf.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor<br>• y newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Strategol cyfredol<br>• y dylid cymeradwyo'r Cynllun Strategol am gyfnod o ddwy flynedd h.y. 2022/23 – 2023-24 | |
| 22.42<br>Strategaeth Ymchwil ac Arloesi | YSTYRIODD y Cyngor y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi arfaethedig, fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ei gyfarfod ym mis Mai 2022 (CO440).<br><br>Nododd yr aelodau fod y strategaeth arfaethedig yn seiliedig ar ymgynghoriad helaeth a thrylwyr ar draws y Brifysgol, a deialog gyda phartneriaid allanol allweddol a chan gyfeirio at yrwyr polisi allanol. Roedd yr ymgynghoriad wedi arwain at ddatblygu fframwaith strategol newydd i gefnogi ymchwil, arloesi, menter a masnacheiddio ar draws y Drindod Dewi Sant. Roedd y strategaeth yn adeiladu ar feysydd rhagoriaeth presennol ond â ffocws o'r newydd i gryfhau ymagwedd y brifysgol at gyfnewid gwybodaeth yng nghyd-destun byd sydd wedi newid. Roedd fersiwn derfynol y strategaeth wedi'i diweddaru i gynnwys gwybodaeth am ganlyniadau REF2021.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi. | |
| 22.43<br>Materion Trysorlys i'w cymeradwyo | YSTYRIODD y Cyngor gynigion yn ymwneud â Rheoli Buddsoddiadau a'r Trysorlys, fel y'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ei gyfarfod ym mis Mai 2022 (CO441).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad. | |
| 22.44<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2022 (CO438b).<br><br>Yn ogystal â'r materion a gofnodir isod ac yn y cofnodion Cyfyngedig, CYMERADWYODD y Cyngor y canlynol:<br><br>(a) parhau i dendro am System CRM;<br>(b) cyflwyno Cynllun Aberthu Cyflog newydd yn ymwneud â Cherbydau Trydan; | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | (c) diwygiadau i'r cynllun Beicio i'r Gwaith;<br>(d) cyflwyno gwasanaethau llesiant ariannol i staff;<br>(e) dyrannu cyllid ychwanegol gan y Brifysgol i'r Matrics Arloesi, fel y nodwyd yn yr adroddiad, gyda'r posibilrwydd o amrywiad +/-15% yn y cynnig cyllido ychwanegol;<br>(f) dileu dyledion drwg fel y nodwyd yn yr adroddiad. | |
| 22.45 Monitro adroddiad a chrynodeb blynyddol KPI | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad monitro a chrynodeb blynyddol KPI, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2022 (CO442). | |
| 22.46<br>Adroddiad ariannol a llif arian parod | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion Cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.47<br>Cyllideb 2022/23 | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion Cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.48<br>Cynllun Ffioedd a Mynediad | YSTYRIODD y Cyngor y Cynllun Ffioedd a Mynediad arfaethedig ar gyfer 2023-25 (CO445).<br><br>Nododd y Dirprwy Is-Ganghellor mai dyma fyddai'r Cynllun Ffioedd a Mynediad olaf dan CCAUC. Dyma'r tro cyntaf hefyd i Gynllun gwmpasu dwy flynedd, a fyddai'n pontio'r cyfnod o newid i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd (CTER). Nododd fod Atodiad B wedi'i gymeradwyo'n wreiddiol gan Gadeirydd y Cyngor ond ei fod ers hynny wedi'i newid i nodi lleoliadau a niferoedd allgymorth yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd gan ymgynghori â'r Athrofa honno a'r Cyfarwyddwr Cyllid.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y Cynllun Ffioedd a Mynediad i'w gyflwyno i CCAUC. | |
| 22.49<br>Cynllunio olyniaeth yr Uwch Dîm | CYTUNODD y Cyngor y dylid gohirio'r mater hwn tan gyfarfod y Cyngor ym mis Medi oherwydd absenoldeb y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol. | |
| 22.50<br>Cofnodion Cyngor y Brifysgol | CADARNHAODD y Cyngor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022 fel cofnod cywir (CO447). | |
| 22.51 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod Pwyllgor Craffu'r Grŵp a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022 (CO448). | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Adroddiad Pwyllgor Craffu'r Grŵp | CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhelliad y dylid trosglwyddo perchnogaeth y Llwyfan maes o law o Eclectica Drindod Ltd i Fentrau Creadigol Cymru Cyf, a diddymu Eclectica wedyn, gan nodi fod hyn yn ffurfiol yn fater i'w weithredu gan Goleg Prifysgol y Drindod fel perchennog Eclectica. | |
| 22.52<br>Datganiad o Fwriad Strategol | YSTYRIODD y Cyngor y Datganiad o Fwriad Strategol arfaethedig ar gyfer 2022/23 rhwng y Brifysgol, Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion (CO449).<br><br>Roedd y datganiad hwn yn amlygu'r meysydd allweddol o ddatblygiad strategol rhwng y Brifysgol a'r Colegau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor y Datganiad o Fwriad Strategol ar gyfer 2022/23. | |
| 22.53<br>Adroddiad y Pwyllgor Taliadau | Derbyniodd y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2022 (CO450) ynghyd ag adroddiad llafar ar benderfyniadau'r Pwyllgor o ran cyflogau uwch staff 2022/23.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhelliad y dylai'r trefniadau presennol o ran llinell adrodd y Clerc barhau heb eu newid.<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor yr argymhelliad y dylai Pennaeth Coleg Sir Gâr gael ei ddynodi'n Ddirprwy Is-Ganghellor Cysylltiol y Brifysgol, yn ogystal â Phrofost fel y nodwyd yn Erthyglau Cymdeithasu CSG. Nid oedd unrhyw oblygiadau o ran cyflog i'r cynnig. | |
| 22.54<br>Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol | CYMERADWYODD y Cyngor y Datganiad Polisi Cyflogau Blynyddol, fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Taliadau yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2022 (CO451). | |
| 22.55<br>Adroddiad y Pwyllgor Academaidd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2022 (CO452). | |
| 22.56<br>Cod Ymarfer Undeb y Myfyrwyr | CYMERADWYODD y Cyngor God Ymarfer Undeb y Myfyrwyr 2022/23, fel y'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Academaidd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2022 (CO453). | |
| 22.57<br>Adroddiad y Senedd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2022 (CO454). | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 22.58<br>Y Strategaeth Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu | CYMERADWYODD y Cyngor y Strategaeth Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu ar gyfer 2022-2026, yn unol ag argymhelliad y Senedd (CO455). | |
| 22.59<br>Strategaeth Llwyddiant Academaidd | CYMERADWYODD y Cyngor y Strategaeth Llwyddiant Academaidd, yn unol ag argymhelliad y Senedd (CO456). | |
| 22.60<br>Strategaeth y Coleg Doethurol | CYMERADWYODD y Cyngor Strategaeth y Coleg Doethurol, yn unol ag argymhelliad y Senedd (CO457). | |
| 22.61<br>Adroddiad Blynyddol ar y Strategaeth Iechyd a Llesiant | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad blynyddol ar y Strategaeth Iechyd a Llesiant (CO458). | |
| 22.62<br>Athrawon Emeritws | Mae'r eitem hon dan GYFYNGIADAU ac adroddir arni yng nghofnodion Cyfyngedig y cyfarfod. | |
| 22.63<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 23 Mai 2022 (CO460). | |
| 22.64<br>Etholiadau am Lywodraethwyr Staff | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar ganlyniadau'r etholiad diweddar am lywodraethwyr staff (CO461). | |
| 22.65<br>Defnydd o Sêl y Brifysgol | DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (CO462). | |
| 22.66<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 22.67<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf a chyfarfodydd blwyddyn academaidd 2022/2023 | Nododd y Cyngor ddyddiadau'r cyfarfod nesaf a chyfarfodydd blwyddyn academaidd 2022/2023 fel a ganlyn:<br><br>Dydd Mawrth 27/09/2022 a dydd Iau 29/09/2022<br>Dydd Iau 24/11/2022<br>Dydd Iau 26/01/2023 | |

| Rhif y cofnod | Prif Bwyntiau Trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Dydd Mercher/Dydd Iau 29-30/03/2023<br>Dydd Iau 06/07/2023<br><br>. | |

Terfynwyd y cyfarfod am 15.53